Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Adroddiad i'r Cynulliad

1. Rhagarweiniad

1.1 Yn ôl Rheol Sefydlog 9.9, mae'n ofynnol i'r holl bwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar hynt y gwaith a wnaethant o ran cyflawni eu blaenraglenni gwaith. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2005.

2. Yr Aelodau

2.1 Yn ystod y flwyddyn, yr aelodau oedd:

Janice Gregory (Cadeirydd)
Peter Black
William Graham
Edwina Hart (y Gweinidog)
Mark Isherwood
Huw Lewis (Dirprwy Weinidog)
Sandy Mewies
Catherine Thomas
Rhodri Glyn Thomas
Leanne Wood

Dirprwyodd Jocelyn Davies yn ystod cyfnod absenoldeb mamolaeth Leanne Wood rhwng Ionawr a Mawrth 2005.

3. Cyfarfodydd

3.1 Yn ystod y cyfnod, cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol yn gyhoeddus ar 14 achlysur, unwaith y tu allan i Gaerdydd ym Mhontypridd. Cynhaliwyd un cyfarfod anffurfiol hefyd ym Mae Colwyn.

4. Ymweliadau

4.1 Ymwelodd y Pwyllgor â Phentref Poundbury yn Dorset a Charchar E.M. Lerpwl (Walton). Bu aelodau o'r Pwyllgor hefyd ar nifer o ymweliadau mewn cysylltiad â'i adolygiad ar gamddefnyddio sylweddau. Yn eu plith roedd ymweliadau â safleoedd cyfeirio yn Aberystwyth, Bangor, Penybont ar Ogwr, Caerdydd, Caerfyrddin, Merthyr Tudful, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam.

5. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

Mae cylch gwaith y Pwyllgor wedi'i seilio ar bortffolio'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, sy'n canolbwyntio ar raglen y llywodraeth ar gyfer adfywio'r cymunedau yng Nghymru, yn benodol y rheini sy'n wynebu'r anfanteision mwyaf. Mae'n cynnwys Cymunedau yn Gyntaf, mentrau yn erbyn tlodi, yr economi cymdeithasol, y sector gwirfoddol, diogelwch cymunedol a chysylltiadau â'r heddlu, y gwasanaeth

tân, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, cyfiawnder ieuenctid a thai. Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn y Rheolau Sefydlog, ac maent wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

6. Nodau ac Amcanion

6.1 Amlinellodd y Pwyllgor ei nodau yn y Blaenraglen Waith Strategol ar gyfer y cyfnod o fis Mehefin 2003 i fis Rhagfyr 2004, ac fe'i cymeradwywyd yn dilyn y cyfarfod ar 2 Gorffennaf 2003. Y nod oedd mynd i'r afael â'r agenda yn erbyn tlodi a sicrhau llywodraeth well a symlach.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai, wrth adolygu a datblygu polisi, yn canolbwyntio ar y meysydd hynny lle y bydd yn ategu yn hytrach na dyblygu polisïau a ddatblygir gan y Gweinidog.

7. Hynt y Gwaith

7.1 Mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar ei adolygiad polisi ac ar gyflwyniadau rheolaidd gan gyrff â diddordeb o'r sectorau gwirfoddol, cyhoeddus a chymunedol er mwyn gwella'i ddealltwriaeth o'r holl faterion sy'n rhan o'i gylch gwaith. Gan fod ganddo gylch gwaith mor eang, mae'r pwyllgor wedi datblygu dulliau strategol o weithio, sef, lle mae hynny'n bosibl, canolbwyntio ar un thema ar gyfer pob cyfarfod sy'n ategu'r adroddiadau rheolaidd gan y Gweinidog ar flaenoriaethau a amlinellir yn y Blaenraglen Waith Strategol.

8. Datblygu ac Adolygu Polisi (Rheol Sefydlog 9.7)

Tai ar gyfer Pobl Hy^n

8.1 Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2004 a lansiwyd y gwaith yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 8 Gorffennaf 2004. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 26 argymhelliad ar gyfer ystyriaeth gan Lywodraeth y Cynulliad, llawer ohonynt â thema draws-bynciol tai ac iechyd a gofal cymdeithasol. Croesawodd y Gweinidog yr adroddiad gan dderbyn yn llawn y rhan fwyaf o'r argymhellion. Addawodd y byddai hi'n ystyried ymhellach yr argymhellion hynny na allai'u derbyn yn syth.

Camddefnyddio Sylweddau

8.2 Yng ngwanwyn 2004 dechreuodd y Pwyllgor ymchwiliad i gamddefnyddio sylweddau. Disgrifir Cylch Gorchwyl yr Adolygiad hwn yn Atodiad 2. Derbyniwyd cyflwyniadau ysgrifenedig gan amrywiaeth eang o unigolion a chyrff perthnasol yn ystod gwanwyn a haf 2004. Yn dilyn hyn, cytunodd y Pwyllgor y byddent yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar driniaeth a'r gwasanaethau sy'n trin y broblem. Rhoddodd nifer o gyrff dystiolaeth lafar yn ystod hydref 2004 a gwanwyn 2005. Dechreuodd yr Aelodau ar gyfres hir o ymweliadau yn ystod gwanwyn 2005 i gasglu mwy o wybodaeth. Disgwylir y bydd adroddiad interim ar driniaeth a'r gwasanaethau trin ar gael yn nhymor

yr haf 2005 a bydd y Pwyllgor yn dechrau ar gyfnod II yr adolygiad, gyda golwg ar gyhoeddi'r adroddiad terfynol yn nhymor yr haf 2006.

Materion eraill yn ymwneud â datblygu ac adolygu polisi

8.3 Yn ogystal â'i adolygiadau polisi ei hun, mae'r Pwyllgor wedi cyfrannu at y prif ddatblygiadau polisi sy'n cael eu rhoi ar waith gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. O'r dechrau'n deg, mae'r pwyllgor wedi nodi mai'r elfen allweddol yn agenda gyfan Cyfiawnder Cymdeithasol yw "tai". Mae wedi blaenoriaethu'r materion hynny sy'n ymwneud â thai yn Strategaeth Tai Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â Digartrefedd, y Stoc Tai sy'n heneiddio, effeithlonrwydd ynni, strategaethau tai lleol a phroblemau arbennig ardaloedd gwledig.

8.4 Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y rhan y mae menter Cymunedau yn Gyntaf yn ei chwarae wrth geisio adfer y sefyllfa drwy helpu i adfywio'r cymunedau tlotaf yng Nghymru. Mae'n cael adroddiadau rheolaidd ar hynt y gwaith.

8.5. Mae'r Pwyllgor wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau Llywodraeth y Cynulliad ar Drais yn y Cartref, Camddefnyddio Sylweddau, Diogelwch Cymunedol, Grant Tai Cymdeithasol, a Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub.

8.6. Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan nifer o gyrff gwahanol y mae'u gwaith yn berthnasol i waith y Pwyllgor. Ymhlith y rhain mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru,Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Y Bwrdd Parôl, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Awdurdodau'r Heddlu, Comisiynydd Hawliau'r Anabl a'r Comisiynydd Plant.

Adroddiad y Gweinidog

8.7 Drwy edrych ar ei hadroddiadau cyson mae'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog ym mhob cyfarfod. Craffodd y Pwyllgor hefyd ar gynigion y Post Brenhinol, y DTI a DWP ynghylch eu gwasanaethau yng Nghymru.

9. Adolygu'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))

9.1 Dim ond un Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor, sef y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau. Fel y mae'r teitl yn ei awgrymu, panel cynghori yw hwn yn unig; nid oes ganddo gyfrifoldeb ariannol ac nid yw'r Pwyllgor ychwaith wedi craffu ar ei waith.

10 Craffu ar Ddeddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i).

Is-ddeddfwriaeth

10.1 Ym mis Mehefin 2003, cytunodd y Pwyllgor ar brotocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth. Cafodd y Pwyllgor amserlen fanwl o'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig sydd ym mhortffolio'r Gweinidog ym mhob cyfarfod. Yn unol â'r weithdrefn y cytunwyd arni, ystyriwyd yr eitemau canlynol gan y Pwyllgor.

- Gweithdrefn ac amserlen trafod is-ddeddfwriaeth dan y Ddeddf Tai
- Gorchmynion Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol
- Trosglwyddo gwaith CAFCASS yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Deddfwriaeth Ewropeaidd

10.2 Ar ôl i Banel y Cadeiryddion gymeradwyo cynigion y Pwyllgor Materion Allanol ac Ewropeaidd ar gyfer system o gael pwyllgorau pwnc i graffu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd mewn ffordd fwy rhagweithiol, mae papurau wedi'u paratoi sy'n rhoi manylion yr holl ddogfennau perthnasol yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol ac adfywio a osodwyd ger bron Senedd Ewrop. Rhoddir y cyfle i'r aelodau nodi eitemau i graffu arnynt yn y dyfodol. Hyd yma, nid oes unrhyw eitemau wedi'u nodi. Fodd bynnag, yn dilyn cais, paratôdd GPYA grynodeb o'r Cynllun Gweithredu Cyffuriau.

10.3 Yn dilyn cyhoeddi Rhaglen Waith Flynyddol y Comisiwn ym mis Ionawr 2005, cytunodd y Pwyllgor i ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar Gynllun Blynyddol y Strategaeth Gyffuriau a'r Polisi Ieuenctid.

Deddfwriaeth Sylfaenol

10.4 Yn sgil araith y Frenhines, penderfynodd y Cyfarfod Llawn y dylid cyfeirio'r Mesur Cydraddoldeb i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

Ni chyhoeddwyd y Mesur mewn pryd i'w ystyried gan y Pwyllgor cyn diwedd y flwyddyn ac fe'i gollyngwyd felly pan ddiddymwyd y Senedd ar 11 Ebrill 2005. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor wedi trafod y Mesur drafft, ac wedi cyhoeddi'i sylwadau fel rhan o'r ymgynghori. Roedd hefyd wedi trafod drafft y Mesur Elusennau ac wedi cyfleu'i sylwadau, drwy'r Gweinidog, i'r Adran yn San Steffan lle y cychwynnodd.

11. Penodiadau (Rheol Sefydlog 9.8)

11.1 Janice Gregory a William Graham oedd enwebeion y Pwyllgor ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Roedd y penodiadau a wnaed yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2004 hyd 31 Mawrth 2005, lle yr ymgynghorwyd ag enwebeion y pwyllgor pwnc, fel a ganlyn:

- Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau (aelodau newydds)

- Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau (ail-benodi)
- Cyd-weithgor Mentrau Cymdeithasol (aelodau newydd)

12. Cyllideb (Rheol Sefydlog 9.8)

12.1 Ystyriodd y Pwyllgor gyllideb arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2004-2005 a gwnaeth sylwadau arni. Ceir llythyr y Cadeirydd yn nodi argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad 3.

13 Materion Trawsbynciol/Gweithio ar y Cyd

13.1 Ar 27 Ionawr 2005, roedd y Comisiynydd Plant yn bresennol mewn cyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgorau Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Addysg a Dysgu Gydol Oes, Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal i drafod ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2003-04.

14. Y Cynlluniau Statudol

14.1 Mae'r Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth i gynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol o ran cysylltiadau â'r sector gwirfoddol, ac o ran y cynllun datblygu cynaliadwy yn ystod ei waith. Yn yr un modd, mae wedi ystyried gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.

14.2 Yn benodol, mae'r Pwyllgor wedi trafod y materion canlynol mewn perthynas â chydraddoldeb:

- Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fynd i'r afael â Chamdrin yn y Cartref. Cyfeiriwyd hyn at y Pwyllgor mewn drafft cyn ei ryddhau ar gyfer ymgynghori. Wedyn, trafododd y Pwyllgor ganlyniadau'r ymgynghori a chyflwyno'i sylwadau i'r Gweinidog. Mae'r Pwyllgor hefyd yn disgwyl adroddiad a gomisiynwyd gan Heddlu De Cymru ar y cynnydd mewn camdrin yn y cartref yn ystod y tymor Rygbi Rhyngwladol. Maes arall y bydd y Pwyllgor yn dal i'w fonitro yw effaith y deddfau trwyddedu newydd a'r canlyniad o ran camdrin yn y cartref.
- Hysbyswyd y Pwyllgor am Dai i Bawb (Housing for Everyone) ac Adroddiad Blynyddol Monitro'r Cynllun Iaith. Dywedodd yr aelodau y dylai gofal plant fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a gofynasant am i'r Pecynnau Gwybodaeth gynnwys gwybodaeth am y Gymraeg.
- Trafodwyd Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac addasu tai drwy gydol y flwyddyn a bydd y Gweinidog yn cyhoeddi adolygiad o bob agwedd yng ngwanwyn 2005. Dywedodd yr aelodau y dylid darparu'n ddigonol - yn gorfforol ac yn feddyliol - ar gyfer gofal plant ag anableddau. Rhoddodd y Comisiynydd Hawliau'r Anabl gyflwyniad ar Fynediad ar gyfer yr Anabl at Henebion.
- Nododd yr Aelodau fod arian wedi'u trosglwyddo i dai Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn ystod y cyfnod a chroesawyd y corff Tai PddLlE newydd, sef Tai Pawb.

- Cwblhaodd y Pwyllgor ei adroddiad ar Dai i Bobl Hy^n. Wrth gasglu'r wybodaeth, ymgynghorwyd â grwpiau sy'n agored i niwed ac ymwelwyd â nifer o gyfleusterau tai PDdLlE.

14.3 **O ran datblygiad cynaliadwy, mae'n rhaid i brosiectau Cymunedau'n Gyntaf fod yn gynaliadwy ac mae Safonau Ansawdd Tai Cymru 2012 yn cadw at y canllawiau.**

15 Y Rhaglen ar gyfer y Dyfodol

15.1 Bydd y Pwyllgor yn amlinellu'i flaenoriaethau ar gyfer 2005-06 yn y Blaenraglen Waith Strategol. Ymhlith y pynciau allweddol y mae:

- Tai
- Camddefnyddio Sylweddau ac Alcohol
- Trais yn y cartref
- Trosedd ac Anhrefn
- Agenda'r Mentrau yn Erbyn Tlodi - gan gynnwys adfywio cymunedau
- Cyfiawnder Ieuenctid
- Y Gwasanaethau Tân a'r Heddlu
- CAFCASS
- Craffu ar is-ddeddfwriaeth – yn enwedig is-ddeddfwriaeth sydd yn ymwneud â'r Ddeddf Tai yng Nghymru.
- Craffu ar Ddeddfwriaeth Ewropeaidd
- Craffu ar y Ddeddfwriaeth Sylfaenol a gynhwyswyd yn Araith y Frenhines ac a gyfeiriwyd i'w thrafod yn y Pwyllgor gan y Cyfarfod Llawn.

Janice Gregory
Cadeirydd

Cyfrifoldebau'r Pwyllgorau Pwnc **ATODIAD 1**

Mae Rheol Sefydlog 9.7 a 9.8 yn rhestru cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc.

Cyfrifoldebau

9.7 Rhaid i bob Pwyllgor Pwnc:

(i) gyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Gweinidog perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt.

(ii) cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a

(iii) cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd

hynny a meysydd cyfrifoldeb1 gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

9.8 O fewn y meysydd perthnasol a meysydd cyfrifoldeb, rhaid i bob Pwyllgor Pwnc hefyd:

(i) gynghori ar ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 24;

(ii) rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 21;

(iii) cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 23 (cwynion);

(iv) cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22; a

(v) ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd

Atodiad 2

Adolygiad Polisi – Camddefnyddio Sylweddau

Cylch Gorchwyl

Ystyried effeithiolrwydd y polisïau a'r trefniadau presennol ar gyfer atal a thrin camddefnyddio sylweddau gan roi sylw arbennig i:

Atal
Clustnodi'r arferion gorau wrth ddysgu am gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru.
Asesu pa arweiniad a chefnogaeth sydd yn angenrheidiol i sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu dilyn mewn ysgolion a lleoliadau eraill.
Asesu pa gamau a gymerir i leihau'r perygl o gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru drwy ddulliau eraill ar wahân i addysg (e.e. ym meysydd cefnogi teuluoedd, tai, gwaith)

Triniaeth
Asesu argaeledd cynlluniau rhannu gofal a chynlluniau defnyddio dan oruchwyliaeth ar draws Cymru a'r rhwystrau wrth recriwtio Meddygon Teulu a Fferyllwyr i'r cynlluniau hyn.
Clustnodi'r prif anawsterau a brofir gan bobl sydd yn ceisio cael triniaeth, yn enwedig dadwenwyno ac adferiad.
Clustnodi'r arferion gorau wrth leihau amseroedd aros am driniaeth.

Grwpiau sy'n dioddef effaith camddefnyddio sylweddau
Argaeledd y gwasanaethau angenrheidiol ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles y plant mewn teuluoedd sydd yn camddefnyddio sylweddau.
Clustnodi anghenion grwpiau neilltuol: plant, cyn-garcharorion a phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, ac ymchwilio argaeledd gwasanaethau ar eu cyfer.

Alcohol
Clustnodi anghenion pobl sydd â phroblemau alcohol ac argaeledd y gwasanaethau ar eu cyfer.
Asesu effaith y ffocws ar gyffuriau anghyfreithlon, gan y Swyddfa Gartref er enghraifft, ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer y rhai sy'n camddefnyddio alcohol.
Asesu effeithiolrwydd y mentrau polisi sydd yn ymwneud ag argaeledd alcohol a'r chwiw-yfed ysbeidiol (*binge-drinking*).

Atodiad 3

Llythyr at y Gweinidog dyddiedig 23 Tachwedd 2004

Y Drafodaeth ar y Gyllideb Ddrafft

Cytunais i ysgrifennu atoch yn dilyn y drafodaeth a gafwyd ar y gyllideb ddrafft yn y Pwyllgor ar 17 Tachwedd.

Yn gyffredinol, cafodd y gyllideb ddrafft groeso gan yr Aelodau. Roeddent yn derbyn bod cyfyngiadau ac yn cydnabod na ellid ariannu pob maes yn y portffolio yn ôl y gofyn. Roedd yr Aelodau'n croesawu hefyd eich strategaeth glir yn dangos pwrpas pob ffrwd ariannu'n fanwl.

Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch y toriadau sydd ar fin digwydd yn nhaliadau Llywodraeth y Cynulliad 'Cefnogi Pobl' a'r ofn y byddai hyn yn golygu toriadau yng nghyllideb Cefnogi Pobl. Mae Aelodau'r Pwyllgor yn deall yn iawn mai'r Trysorlys sy'n pennu hyn fel Gwariant a Reolir y Flynyddol a'ch bod chi, gyda'r Gweinidog dros Gyllid, wedi lobïo i leihau effaith y toriadau yn y taliad. Fodd bynnag, os na fydd y taliad yn gwella, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru chwilio pob llwybr i leddfu'r effaith ar y gwasanaethau hanfodol a gyllidir gan Gefnogi Pobl. Mae'r Aelodau'n derbyn eich bod wedi gwneud eich gorau glas i ragrybuddio awdurdodau lleol am bosibilrwydd toriadau. Fel y gwyddoch, cytunwyd y dylwn i ysgrifennu'n uniongyrchol at y Gweinidog dros Gyllid ar y mater hwn. Anfonwyd copi o'r llythyr hwnnw atoch chi ac at bob aelod arall o'r Pwyllgor. Awgrymwyd y dylid cael cyllideb tair blynedd, ar ôl cytuno ar y taliad, er mwyn hyrwyddo sefydlogrwydd.

Ynghylch cyfalaf tai i'r awdurdodau lleol, cyfeiriwyd at y nifer sylweddol o dai preifat sy'n dadfeilio am eu bod yn eiddo ac yn gartref i bobl hy^n sy'n methu fforddio'u hatgyweirio. Amlygwyd hyn yn adolygiad y Pwyllgor o Dai i Bobl Hy^n. Cydnabuwyd y cynllun ecwiti peilot fel y'i hargymhellwyd yn yr adroddiad hwnnw ond mynegwyd pryder bod y Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar lefel y gellir ei chymharu yn £40m yn llai na dwy flynedd yn ôl. Canlyniad hyn fydd cynyddu'r amseroedd aros am y grantiau hyn.

Maes arall sy'n peri pryder i'r Pwyllgor yw tai fforddiadwy. Croesewir y cynnydd mewn adnoddau ond erys llawer i'w wneud i gyfarfod â maint yr her yng Nghymru. Ymhlith yr awgrymiadau a gafwyd er mwyn osgoi argyfwng posibl mewn tai cymdeithasol mae'r angen am drafod cynlluniau mentrus a newydd ar gyfer tai fforddiadwy ac adolygu'r telerau a'r amodau ac, o bosibl, neilltuo ffrwd ariannu ar wahân ar gyfer Homebuy. Rwy'n deall y bydd hyn yn cael ei drafod fel rhan o'ch adolygiad o'r Grant Tai Cymdeithasol.

Nododd yr Aelodau y cynllun ardderchog, HEES, a gyflwynwyd i leddfu tlodi tanwydd. Crybwyllwyd, fodd bynnag, adroddiad gan Help the Aged a ddangosai fod 160 yn fwy o bobl hy^n wedi marw y llynedd o glefydau oedd yn ganlyniad i'r oerfel a gofynnwyd ichi ailystyried y ffrwd hon yng ngoleuni'r canfyddiadau hynny. Rwy'n teimlo fodd bynnag nad yw pobl hy^n yn gwybod yn iawn am y manteision sydd ar gael iddynt yn sgil y cynllun hwn ac rwy'n diolch eich bod wedi cytuno i edrych ar y deunydd hysbysu sydd ar gael ynghylch HEES.

Nododd yr Aelodau mai araf oedd y gwaith gyda'r awdurdodau lleol wrth baratoi'u strategaethau tai. Derbyniwyd gwybodaeth i'r perwyl na fyddai rhai awdurdodau'n gallu cyrraedd y safon erbyn 2012 gan ei bod yn rhy uchel ac y byddai angen £3biliwn i ariannu'r gwaith. Diolch ichi am roi gwybodaeth gyfredol i'r Pwyllgor am y gwaith ar y strategaethau hyn ac am geisio corlannu'r 22 strategaeth er mwyn eu dadansoddi.

Wrth drafod y gwaith pwysig a wneir gan Annog Cymunedau i Helpu'i Gilydd, gofynnodd yr Aelodau a fyddai arian ychwanegol yn cael eu trosglwyddo i gyfarfod â chostau'r gwaith adfywio arfaethedig a gefnogid gan y model hwn. Eich ymateb oedd y byddech yn gallu ymhelaethu ar y mater hwn ar ôl derbyn ateb i'ch llythyr gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys.

Croesawyd y gwaith da sylweddol a wnaed ar gyllid Cymunedau'n Gyntaf a'ch is-ddeddfwriaeth arfaethedig ar lety 'gwely a brecwast'.

Ateboch ar y diwrnod hwnnw y cwestiynau canlynol a godwyd gan yr Aelodau parthed y ffaith nad oedd dim wrth gefn yn y gyllideb a'r rheswm nad oedd yr SHG i bobl hy^n (Wanless) yn dechrau ym mlwyddyn 1. Cofnodwyd nad oedd y gyllideb Diogelwch Tân Cymunedol wedi cynyddu a dywedasoch na fu ichi dderbyn unrhyw geisiadau am gynnydd gan y sector tân.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at bob Aelod o'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

Janice Gregory
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio